**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**15 Mehefin 2015**

**ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

**Adroddiad gan y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies**

**Diben yr Adroddiad**

1 Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth i aelodau ynglŷn â chyfarfodydd a digwyddiadau a fynychwyd gan Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn rhinwedd eu swyddi rhwng Mawrth a Mehefin 2015.

**Gwybodaeth**

2 Rhestrir isod y digwyddiadau a'r cyfarfodydd a fynychwyd gan y Cadeirydd (C) a/neu'r Dirprwy Gadeirydd (DG):

| | |
|---|---|
| 18/06/15 | Cynhadledd WLGA, Abertawe (C) |
| 19/06/15 | Cyfarfod Blynyddol WLGA, Abertawe (C) |
| 10/07/15 | Cyfarfod Blynyddol Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, Conwy (C) |
| 14/07/15 | Cyfarfod Panel Gwasanaethau Tân WLGA, yn defnyddio offer fideo gynadledda (C a DG) |
| 14/07/15 | Cyfarfod gyda'r Undebau cyn y Panel Gweithredol (C a DG) |
| 17/07/15 | Cyfarfod gyda Janet Haworth AC, Pencadlys (C a DG) |
| 17/07/15 | Seremoni Cyflawniad y Ffenics, Llanfairfechan (C a DG) |
| 30/07/15 | Ymweld â safle'r Orsaf Dân ac Ambiwlans newydd yn Wrecsam (C a DG) |
| 26/08/15 | Cyfarfod cyntaf Prosiect Iechyd, Diogelwch a Lles GTAGC, Pencadlys (C) |
| 20/09/15 | Diwrnod Agored Dathlu 150 mlynedd Gorsaf Dân Dinbych (C) |

3 Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Prif Swyddog Tân a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn ar 14/07/15, 12/08/15 a 15/09/15.

4 O ganlyniad i newidiadau diweddar yn fframwaith deddfwriaethol iechyd a diogelwch ar gyfer awdurdodau tân ac achub, cwblhawyd adolygiad gan y swyddogion o'r trefniadau rheoli iechyd, diogelwch a lles y staff ar draws yr holl Wasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn addas. O'r adolygiad gwelwyd fod rhai meysydd lle gall yr Awdurdod barhau i wella, ehangu a hyrwyddo diwylliant iechyd a diogelwch bositif i'r holl staff ac ymwelwyr â GTAGC. Y cyfarfod ar Awst 26 oedd yr un cyntaf i gael ei gynnal gan y grŵp Prosiect Iechyd, Diogelwch a Lles sydd newydd ei sefydlu er mwyn gweithredu'r argymhellion a wnaed gan y Bwrdd Prosiect. Mae'r Cadeirydd yn mynychu'r cyfarfodydd hyn yn rhinwedd ei swydd fel Hyrwyddwr Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod. Caiff yr Aelodau fwy o wybodaeth am y gwaith hwn maes o law.

**Argymhelliad**

5 Argymhellir fod Aelodau'n nodi'r wybodaeth â ddarparwyd.